Gweithio mewn mannau cyfyng risg ganolig

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â pharatoi ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng risg ganolig a gweithio'n ofalus ynddynt. Mae man cyfyng yn unrhyw le, gan gynnwys unrhyw siambr, tanc, cerwyn, seilo, pwll, ffos, pibell, carthffos, ffliw, ffynnon neu fan tebyg lle ceir risg benodol y gellir ei rhagweld yn rhesymol oherwydd ei natur gaeedig. Gallai'r risgiau arwain at anaf difrifol neu farwolaeth o ganlyniad i dân, ffrwydrad, nwy, mygdarthau, anwedd, diffyg ocsigen, lefelau cynyddol o hylif, mygu neu gaethiwo gan solidau sy'n llifo'n rhydd.

Nodweddion mannau cyfyng risg ganolig:

- mynediadau dyfnach, o bosibl, a allai fod y tu hwnt i olwg y swyddog diogelwch neu'r person wrth y llyw
- mynediadau safonol a allai olygu gorfod dringo neu ddefnyddio cyfarpar mynediad
- risgiau a nodwyd ond sydd wedi'u rheoli wrth fynd i mewn neu wrth weithio
- gall gynnwys gweithio i ffwrdd o'r pwynt mynediad
- gall olygu bod mwy nag un person yn mynd i mewn i'r man cyfyng.

Mae gweithio mewn unrhyw fan cyfyng yn golygu gweithio yn unol â system waith y cytunwyd arni sy'n seiliedig ar asesiad risg. Ar ben hynny, mewn mannau cyfyng risg ganolig:

- gallech orfod defnyddio llinell achub mewn sefyllfaoedd prin
- gallech orfod cael cyfarpar diogelu a dulliau achub cynorthwyol fel winsh achub
- rhaid cario pecynnau dianc addas er mwyn achub eich hun mewn argyfwng
- rhaid cael un neu ragor o bobl y tu allan i'r man cyfyng sydd â chyfrifoldebau penodedig dros reoli'r mynediad a mynd i'r afael ag argyfyngau.

Mae'r safon hon yn cynnwys paratoi i fynd i mewn i fannau cyfyng risg ganolig a gweithio ynddynt yn ddiogel, mynd i mewn i fannau cyfyng a'u gadael yn ddiogel, defnyddio cyfarpar ac offer yn unol â manylion y gwneuthurwyr, dilyn gweithdrefnau a gweithio'n ddiogel, defnyddio cyfarpar dianc ac argyfwng, a mynd i'r afael ag argyfyngau. Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw un o unrhyw sector y mae angen iddynt weithio mewn man cyfyng risg ganolig.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. cadarnhau bod unrhyw asesiadau risg sy'n bodoli eisoes yn gywir cyn dechrau gweithio
2. cynnal asesiadau risg deinamig pan fo angen ar adegau priodol yn ystod gwaith
3. gosod systemau signalau a chyfathrebu a'u profi cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
4. defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n addas ar gyfer tasgau a mannau cyfyng
5. gwneud yn siŵr bod yr holl gyfarpar ac offer yn addas ac yn gweithio'n dda cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
6. dewis cyfarpar diogelu personol (PPE) sydd mewn cyflwr da
7. dewis ac archwilio pecynnau dianc ar gyfer achub eich hun cyn dechrau gweithio, a chael rhai newydd pan fyddant yn ddiffygiol
8. rhoi gwybod i bobl briodol am ddiffygion cydymffurfio pecynnau dianc
9. cael caniatâd i fynd i mewn gan y bobl ddynodedig sy'n goruchwylio'r gwaith
10. gosod, profi a chofnodi canlyniadau cyfarpar monitro priodol cyn mynd i mewn i fannau cyfyng
11. mynd i mewn i fannau cyfyng pan mae'n ddiogel gwneud hynny
12. cynnal parthau diogelwch a rheoli mynediad a symudiad pobl a cherbydau o amgylch mynediadau mewn sefyllfaoedd pan mae angen cadw pobl draw
13. cael gafael ar gyfarpar mynediad sy'n briodol ar gyfer mynd i mewn a gadael, ei osod a'i wirio
14. defnyddio cyfarpar mynediad i fynd i mewn i fannau cyfyng a'u gadael yn unol â gweithdrefnau ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng risg ganolig
15. defnyddio dulliau penodedig er mwyn mynd â chyfarpar ac offer i mewn i fannau cyfyng
16. datrys unrhyw broblemau gyda chyfarpar ac offer cyn ac wrth eu defnyddio
17. datrys unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â mynd i mewn i fannau cyfyng, eu gadael neu weithio ynddynt gyda phobl berthnasol
18. dilyn gweithdrefnau cyflogwyr ar gyfer gweithio'n ddiogel a chyfarwyddiadau gwneuthurwyr cyfarpar
19. monitro amodau a lefelau risg mewn mannau cyfyng yn barhaus

20. cymryd camau priodol i reoli pob risg a chywiro unrhyw weithgaredd, cyfarpar ac amodau amgylcheddol anniogel ar unwaith
21. monitro gwybodaeth o gyfarpar monitro ac ymateb iddi yn unol â gweithdrefnau
22. parhau'n effro i amodau sy'n newid ac ymateb iddynt yn unol â gweithdrefnau bob amser
23. defnyddio protocolau sydd wedi ennill eu plwyf ar gyfer signalau neu gyfathrebu er mwyn dechrau cynlluniau argyfwng
24. dechrau cynlluniau argyfwng ar unwaith mewn sefyllfaoedd peryglus
25. defnyddio cyfarpar dianc priodol ar gyfer yr amgylchedd fel y nodir mewn gweithdrefnau
26. cario a defnyddio pecynnau dianc ar gyfer achub eich hun ar adegau priodol yn unol â gweithdrefnau a chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
27. cofnodi digwyddiadau argyfwng a'u hamgylchiadau a rhoi gwybod amdanynt yn unol â gweithdrefnau
28. cwblhau'r holl ddogfennaeth a'r adroddiadau ar adegau priodol
29. anfon dogfennaeth ac adroddiadau ymlaen at y bobl briodol ar unwaith
30. sicrhau bod cyfarpar ac offer yn cael eu hadfer o fannau cyfyng pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau
31. cau mannau gwaith a'u gwneud yn ddiogel pan mae'r gwaith wedi'i gwblhau
32. gwirio cyfarpar ac offer ar ôl eu defnyddio a'u storio yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
33. gwirio cyfarpar dianc ac argyfwng ar ôl eu defnyddio a gadael yn ddiogel, a chadarnhau eu bod yn cyd-fynd â manylion cyn eu storio yn y storfa ddynodedig yn barod ar gyfer y gwaith nesaf.

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. prif egwyddorion a nodweddion diffiniol mannau cyfyng cyfredol, iechyd a diogelwch a deddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol
2. y codau ymarfer a'r canllawiau sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer gweithio mewn mannau cyfyng
3. dyletswyddau a chyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth
4. sut i ddefnyddio awdurdodiadau gwaith a thrwyddedau i weithio
5. diffiniadau o sefyllfaoedd peryglus a gwahanol fathau o risg a nodir a chategorïau ohonynt
6. mathau o fannau a allai fynd yn gyfyng gan fod risg a nodwyd yno
7. peryglon, sylweddau a sefyllfaoedd sy'n gysylltiedig â mannau cyfyng risg ganolig
8. sut i gynnal asesiad risg deinamig er mwyn adolygu risg, cofnodi canfyddiadau a lleihau'r risg o anaf i chi eich hun, cydweithwyr a'r cyhoedd
9. ymwybyddiaeth o sut gall sefyllfaoedd argyfwng godi mewn mannau cyfyng
10. dulliau a thechnegau defnyddio a gwisgo cyfarpar diogelu personol
11. cyfyngiadau cyfarpar a sut i nodi pan nad yw'n gweithio
12. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr mewn cysylltiad a defnyddio cyfarpar ar gyfer mynd i mewn i fan cyfyng a gweithio yno'n ddiogel
13. eich rôl wrth weithio'n rhan o dîm a sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel wrth weithio gydag eraill
14. y rolau a'r cyfrifoldebau wrth fynd i'r afael ag argyfyngau
15. gweithdrefnau ar gyfer mynd i'r afael ag argyfyngau, digwyddiadau a damweiniau fu ond y dim iddynt ddigwydd
16. cynlluniau dosbarthu mannau cyfyng
17. sut i nodi mannau cyfyng risg ganolig
18. sut i osod cyfarpar mynediad a'i archwilio
19. defnydd a chyfyngiadau pecynnau dianc a sut i'w harchwilio a'u defnyddio
20. y gweithdrefnau ar gyfer mynd i mewn i fannau cyfyng risg ganolig
21. sut i asesu ac adolygu risgiau a pheryglon, hierarchaeth y mesurau rheoli a sut gellir eu defnyddio i leihau risgiau hyd at lefel dderbyniol er mwyn i waith gael ei wneud
22. sut mae systemau awyru'n gweithio a'u manteision a'u

hanfanteision mewn mannau cyfyng

23. pam mae'n bwysig bod yn effro i risgiau a pheryglon posibl ac amodau sy'n newid

24. y gweithdrefnau a'r dulliau gweithio sy'n addas i ddosbarth y man cyfyng ac amodau lleol

25. y gwahanol fathau o gyfarpar monitro a'u cyfyngiadau

26. ffyrdd o fonitro amodau a gweithgaredd gwaith

27. pam mae'n bwysig datrys problemau ynghylch gwaith mewn mannau cyfyng ar unwaith

28. sut i ddatrys problemau pan fydd pobl neu sefydliadau eraill yn cymryd rhan

29. systemau a phrotocolau signalau a chyfathrebu ar gyfer cadw mewn cysylltiad â phobl eraill wrth weithio mewn mannau cyfyng risg ganolig ac mewn sefyllfaoedd argyfwng

30. sut i ddilyn cyfarwyddiadau a gweithdrefnau gwneuthurwyr ar gyfer paratoi, cyn ac ar ôl cynnal archwiliad, a defnyddio offer a chyfarpar

31. systemau adrodd ar gyfer gweithgareddau gwaith arferol ac anarferol a sefyllfaoedd argyfwng

Gweithio mewn mannau cyfyng risg ganolig

Datblygwyd gan	Energy & Utility Skills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2020
Indicative Review Date	Mawrth 2025
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Energy & Utility Skills
RCU gwreiddiol	EUSCS02
Galwedigaethau perthnasol	Peirianneg a thechnolegau gweithgynhyrchu; Adeiladu, cynllunio a'r amgylchedd adeiledig
Cyfres/Set	Mannau Cyfyng
Geiriau Allweddol	Man cyfyng; risg ganolig; risg benodol; mynediad; allanfa; diogelwch; cyfarpar mynediad; monitro amodau; argyfyngau